Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG50605**

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i strwythur cyfraddau cyfraniadau gweithwyr yng Nghynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru.

Dyddiad cyhoeddi: **12 Tachwedd 2024**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **04 Chwefror 2025**

## Trosolwg

Rydym yn ymgynghori ar ddiwygiadau a awgrymir i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015 er mwyn darparu ar gyfer strwythur cyfraddau cyfraniadau newydd i weithwyr. Byddai'r diwygiadau'n dod i rym o 1 Ebrill 2025 ymlaen.

## Sut mae ymateb

I ymateb i'r ymgynghoriad hwn, llenwch y ffurflen ar-lein sydd ar gael yn y fan hon:

**https://www.llyw.cymru/newidiadau-i-gyfraniadau-gweithwyr-o-fewn-cynllun-pensiwn-y-diffoddwyr-tan**

Neu, caiff ymatebwyr ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar wahân a ddarperir, a gellir anfon honno dros e-bost i
fire@gov.wales neu i'r cyfeiriad isod.

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw **04 Chwefror 2024**.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Gwasanaethau Tân
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

E-bost: fire@gov.wales

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg: hyperlink

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a thros unrhyw ddata personol rydych yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn, ac a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â sut byddant yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Erthygl 6(1)(e))

Bydd unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau pellach. Mewn ymgynghoriadau ar y cyd, gall hyn hefyd gynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, efallai y bydd trydydd parti achredededig yn cael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn (ee sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghorol). Dim ond o dan gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

I ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael ei gyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac y gallai Llywodraeth Cymru fod o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu rhywfaint o wybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch fel arall yn cael eu cadw am dair blynedd fan bellaf.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl i'r canlynol:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, ac i gael gweld y data hynny
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu atal prosesu (mewn amgylchiadau penodol)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn amgylchiadau penodol)
- i gludo data (mewn amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan reoliad GDPR y DU, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:


| | |
|---|---|
| Swyddog Diogelu Data: | Parc Cathays |
| Llywodraeth Cymru | CAERDYDD |

CF10 3NQ
e-bost: dataprotectionofficer@gov.wales

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cefndir

1. Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnig buddion ymddeol i ddiffoddwyr tân a'u teuluoedd ar delerau sy'n adlewyrchu heriau penodol y proffesiwn diffodd tân.

2. Tan 2022, roedd tri chynllun pensiwn diffoddwyr tân yn bodoli yng Nghymru.
    - Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 ("Cynllun 1992")
    - Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân 2007 ("Cynllun 2007") sy'n cynnwys "cynllun wedi'i addasu" ar gyfer diffoddwyr tân wrth gefn, wedi'i fodelu ar Gynllun 1992.
    - Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015 (FPSW) ("Cynllun 2015")

3. Fodd bynnag, ar ôl cyflwyno Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022, daeth Cynllun 1992 a Chynllun 2007 i ben, a throsglwyddwyd holl aelodau gweithredol y cynllun i Gynllun 2015 o 1 Ebrill 2022 ymlaen.

4. Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn darparu buddion ymddeol sy'n cynnwys cyfandaliad ymddeol, pensiwn blynyddol sy'n cynyddu bob blwyddyn yn unol â chwyddiant prisiau a phensiynau ar gyfer partneriaid sydd yn fyw neu blant dibynnol.

5. Mae hwn yn gynllun cyfrannol. Mae'n ofynnol i aelodau a'u cyflogwyr dalu tuag at gost y buddion y maent yn eu cronni yn y cynllun. Cynhelir prisiad actiwaraidd bob 4 blynedd i sicrhau bod lefel y cyfraniadau a wneir gan aelodau a chyflogwyr yn ddigonol o ystyried cost y buddion pensiwn sy'n cael eu talu.  Yn wahanol i gynlluniau pensiwn "wedi'u cyllido" (pan mae cyfraniadau'n cael eu buddsoddi, a buddion pensiwn yn cael eu talu o'r adenillion a geir o'r buddsoddiadau hynny), mae pensiynau diffoddwyr tân yn gweithio ar sail arian parod: mae cyfraniadau gan aelodau gweithredol yn talu'n uniongyrchol am fuddion aelodau sydd eisoes wedi ymddeol.

6. Mae holl aelodau gweithredol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cyfrannu at y cynllun drwy dalu cyfraniadau gweithwyr, sydd fel arfer yn cael eu tynnu o'r cyflog. Mae cyfraddau cyfraniadau gweithwyr yn ganran o'r cyflog pensiynadwy y mae pob gweithiwr yn ei gyfrannu at y cynllun.  Gelwir cyfran gyffredinol y cyflog pensiynadwy y disgwylir i aelodau ei gyfrannu at y cynllun gyda'i gilydd yn arenillion.  Mae angen arenillion o 13.2% o gyflog pensiynadwy i sicrhau

cynaliadwyedd y cynllun yn y dyfodol. Os na ellir cyflawni'r arenillion hynny, byddai cost y cynllun yn cael ei ysgwyddo'n ormodol gan drethdalwyr. Er bod yr arenillion yn ganran sefydlog, caiff ei gyfrifo fel cyfartaledd ar draws yr holl ddiffoddwyr tân cyflogedig. Mae'r rheolau presennol yn mynnu bod aelodau gweithredol yn talu cyfraniadau sy'n seiliedig ar raddfa symudol o gyfraddau sy'n gysylltiedig â'u cyflog pensiynadwy, fel y nodir isod:

| Ystod tâl pensiynadwy | Cyfraddau cyfraniadau o 1 Ebrill 2018 ymlaen |
|---|---|
| Hyd at £27,818 | 11.0% |
| £27,819 i £51,515 | 12.9% |
| £51,516 i £142,500 | 13.5% |
| £142,501 neu fwy | 14.5% |

7. Bwriad hyn, ynghyd â chyfraniadau i Gynlluniau 2007 a 1992 sydd bellach wedi cau, oedd cynhyrchu arenillion o 13.2% ar draws yr holl aelodau, yn ôl yr angen.

**Y Prif Fater**

8. Yn yr ymarfer prisio diwethaf, nododd Adran Actiwari'r Llywodraeth ("GAD") fod yr arenillion a gyflawnwyd drwy'r cynllun ychydig yn is na'r hyn sydd ei angen, sef ychydig o dan 13.0%. Gall hyn fod oherwydd cau Cynllun 1992, a oedd â chyfraddau cyfraniadau uwch na Chynllun 2015. Felly, mae angen i strwythur y cyfraddau cyfraniadau newid er mwyn cyflawni'r arenillion o 13.2% yn yr ymarfer prisio nesaf. Mae cyfraddau cyfraniadau gweithwyr yn destun trefniadau diogelu arbennig o dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013, ac ni all Gweinidogion Cymru newid y cyfraddau oni bai eu bod yn ymgynghori ag aelodau'r cynllun yn gyntaf gyda'r bwriad o ddod i gytundeb â nhw. Mae'r ymgynghoriad hwn yn disgrifio amrywiaeth o newidiadau posibl, er mwyn cyflawni'r arenillion a fynnir ac anelu at ddarparu'r opsiwn gorau a thecaf i'r holl aelodau

## Egwyddorion ar gyfer dull gweithredu newydd

9. Mewn theori, mae nifer o ffyrdd y gellid addasu cyfraddau cyfraniadau i gyflawni'r arenillion sy'n ofynnol. Ond credwn ei bod yn bwysig bod y dull cyffredinol yn adlewyrchu sawl egwyddor. Sef:

***Dylai cyfraniadau fod yn fforddiadwy, ac ni ddylai'r newidiadau beri i aelodau optio allan o'r cynllun***

10. Mae'n rhaid i'r cynllun cyffredinol gyflawni'r arenillion targed, sy'n golygu bod angen i'r cyfraddau cyfraniadau cyffredinol gynyddu nawr. Fodd bynnag, credwn y dylai'r newidiadau fod cyn lleied â phosibl i'r holl aelodau. Gallai cynnydd mawr sydyn mewn cyfraniadau yng nghyswllt unrhyw grŵp o aelodau achosi caledi gwirioneddol. Gallent hefyd achosi i aelodau optio allan o aelodaeth y cynllun yn gyfan gwbl. Er bod gan bob aelod yr hawl i wneud hyn, gall eu gadael heb incwm digonol ar ôl ymddeol, os nad ydynt yn codi pensiwn personol yn lle hynny. Mae cyfradd uchel o

optio allan hefyd yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd yn rhaid i gyfraniadau gynyddu fwy fyth, gan y byddai angen o hyd i'r aelodau sy'n weddill dalu cost y buddion pensiwn sy'n cael eu talu ar hyn o bryd.

***Dylai strwythuro'r cyfraddau gael eu strwythuro o blaid aelodau'r cynllun sydd ar gyflog is.***

11. Fel y dangosir uchod, mae gan y system bresennol bedwar band o gyfraniadau sy'n seiliedig ar gyflog cyfwerth ag amser llawn unigolyn. Mae aelodau sydd ar gyflog uwch yn talu cyfran uwch o'u cyflog mewn cyfraniadau pensiwn nag aelodau ar gyflog is. Credwn fod hynny'n deg ac yn gywir, gan ei fod yn adlewyrchu'r ffaith y bydd gan aelodau sydd ar gyflog uwch fwy o incwm gwario fel arfer. Rydym yn bwriadu adlewyrchu'r egwyddor hon drwy gadw'r strwythur bandiau, gyda chyfraddau cyfraniadau canrannol cynyddol ar draws y bandiau.

***Ni ddylai cyfraddau wneud i unigolion deimlo'n amharod i gamu ymlaen yn eu gyrfa***

12. Er ei bod yn deg y dylai aelodau ar gyflogau uwch dalu cyfran fwy sy'n gymesur â'u cyflog, pe bai'r egwyddor hon yn cael ei gweithredu'n rhy helaeth, gallai beri i aelodau beidio â cheisio dyrchafiad. Byddai hyn yn arbennig o wir pe bai codiadau "ymyl y dibyn" yn y cyfraddau cyfraniadau, sef cynnydd bach mewn cyflog yn arwain at gynnydd mawr yn y cyfraniadau sy'n daladwy. Credwn y dylai'r gwahaniaethau rhwng y bandiau aros fel y maent ar hyn o bryd yn fras, er mwyn atal hyn rhag digwydd.

***Dylai strwythur y gyfradd gyfraniadau gael ei ddiogelu at y dyfodol***

13. Mae'r strwythur cyfraddau presennol tua 9 oed erbyn hyn. Pan gafodd ei gyflwyno am y tro cyntaf, roedd llawer o ddiffoddwyr tân rheng flaen yn y band cyfraniadau isaf, ond mae codiadau cyflog ers hynny wedi golygu mai ychydig iawn sydd yn y band hwnnw erbyn hyn: mae cyflog sylfaenol diffoddwr tân cymwys bellach ymhell o fewn yr ail fand. O ganlyniad, dim ond 3 band sydd i'r holl strwythur i bob pwrpas, sy'n lleihau'r diogelwch y mae'n ei roi i aelodau ar gyflog is. Credwn y dylai'r dull newydd gynnwys rhyw elfen o ddiogelu at y dyfodol, hynny yw, ffordd o sicrhau nad yw bandiau cyfraniadau yn dyddio o ganlyniad i godiadau cyflog.

***Dylai'r system fod yn syml i'w gweinyddu***

14. Rheolir pensiynau diffoddwyr tân gan dri Awdurdod Tân ac Achub Cymru, gyda chefnogaeth dau awdurdod lleol (Sir Gaerfyrddin a Rhondda Cynon Taf) sy'n gweithredu fel gweinyddwyr y cynllun. Er eu bod yn gwbl abl i redeg y system yn effeithiol, gall newidiadau mawr i reolau cynlluniau pensiwn greu baich sylweddol sy'n gofyn am newid meddalwedd, prosesau gweithio a hyfforddiant staff. Rydym yn cynnig y dylai strwythur y gyfradd gyfraniadau fod mor syml â phosibl i'w reoli a'i weinyddu.

15. Mae Bwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân ("SABW"), sy'n fwrdd statudol sy'n cynnwys cynrychiolwyr undebau llafur a chyflogwyr, wedi cytuno

bod yr egwyddorion hyn yn ddilys, ond mae gennym ddiddordeb mewn clywed safbwyntiau eraill hefyd.

**Cwestiwn 1 – I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai'r strwythur newydd fod yn seiliedig ar yr egwyddorion a amlinellir uchod? Ydych chi'n meddwl bod rhai egwyddorion yn bwysicach na rhai eraill?**

**Opsiynau ar gyfer newid**

***16.*** Rydym wedi nodi sawl ffordd y gallem newid y system gyfrannu i gyflawni'r arenillion angenrheidiol. Sef:

***Opsiwn 1***

17. Gallem addasu'r cyfraddau cyfraniadau ar gyfer pob band fel y maent ar hyn o bryd i gyrraedd y targed arenillion yn unol â'r enghraifft isod. Cofiwch mai at ddibenion enghreifftiol yn unig y mae'r ffigurau yn yr ymgynghoriad hwn er mwyn dangos effaith pob opsiwn ar gyfraddau cyfraniadau gweithwyr. Nid yw'r ffigurau'n derfynol ac maent yn debygol o newid pe bai'r opsiwn hwn yn cael ei roi ar waith. Pe bai'r dull hwn yn cael ei fabwysiadu, byddai cyfraniadau'r holl aelodau'n cynyddu 0.19%, a fyddai'n cyfateb i oddeutu £72 y flwyddyn i Ddiffoddwr Tân amser llawn a £141 y flwyddyn i Reolwr Grŵp B.

**Opsiwn 1 – Addasu strwythur y gyfradd gyfraniadau bresennol i gyflawni'r arenillion targed.**

| | | Strwythur Presennol | | Strwythur wedi'i Ddiweddaru (cynnydd o 0.19% i bob cyfradd) | | Effaith y newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gradd** | **Gwir Dâl** | **Cyfradd gyfraniadau** | **Swm gros y cyfraniad (blynyddol)** | **Cyfradd gyfraniadau** | **Swm gros y cyfraniad (blynyddol)** | **Newid yn y gyfradd gyfraniadau** | **Newid mewn cyfraniadau gros (blynyddol)** |
| Diffoddwr Tân - Cymwys (Amser llawn) | £37,675 | 12.90% | £4,860 | 13.09% | £4,932 | 0.19% | £72 |
| Diffoddwr Tân - Cymwys (Rhan-amser) | £25,000 | 12.90% | £3,225 | 13.09% | £3,273 | 0.19% | £47 |
| Rheolwr Criw Cymwys (Amser llawn) | £41,767 | 12.90% | £5,388 | 13.09% | £5.467 | 0.19% | £79 |
| Rheolwr Gwylfa – Cymwys B (Amser llawn) | £46,707 | 12.90% | £6,025 | 13.09% | £6,114 | 0.19% | £89 |
| Rheolwr Gorsaf – Cymwys B (Amser llawn gyda lwfans dyletswydd hyblyg pensiynadwy o 20%) | £64,303 | 13.50% | £8,681 | 13.69% | £8,803 | 0.19% | £122 |
| Rheolwr Grŵp – Cymwys B (Amser llawn gyda lwfans dyletswydd hyblyg pensiynadwy o 20%) | £74,434 | 13.50% | £10,049 | 13.69% | £10,190 | 0.19% | £141 |
| Rheolwr Ardal – Cymwys B (Amser llawn gyda lwfans dyletswydd hyblyg pensiynadwy o 20%) | £86,465 | 13.50% | £11,673 | 13.69% | £11,837 | 0.19% | £164 |

18. Fodd bynnag, credwn y byddai gwneud hynny'n golygu colli cyfleoedd i wneud y system yn decach ac yn fwy cadarn, yn unol â'r egwyddorion uchod.

19. Yn benodol, credwn fod lle i ystyried y materion canlynol:

- **Cyfraniadau ar sail cyfraddau ymylol.**
- **Newid o gyflog cyfwerth ag amser llawn i gyflog gwirioneddol.**
- **Cysylltu cyfraniadau â'r strwythur graddau fel y nodir yn Nhelerau ac Amodau Gwasanaeth Diffoddwyr Tân ("y Llyfr Llwyd").**

20. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn rhoi rhagor o fanylion am yr opsiynau arfaethedig a amlinellir uchod a'r rhesymeg dros y newidiadau hyn. Rydym yn croesawu ymatebion gan bawb y mae'r cynigion yn effeithio arnynt ac sydd â diddordeb ynddynt.

***Opsiwn 2 – Cyfraniadau ar sail cyfraddau ymylol a chyfraddau haenog***

21. Mae'r opsiwn hwn yn ystyried sut mae cyfraddau cyfraniadau yn cael eu cymhwyso i gyflog pensiynadwy aelod unigol. Ar hyn o bryd, mae aelod y mae ei gyflog cyfwerth ag amser llawn yn dod o fewn band penodol yn talu'r gyfradd gyfraniadau berthnasol ar gyfer ei gyflog i gyd. Er enghraifft, gan ddefnyddio cyfraddau cyflog cyfredol, mae Rheolwr Gorsaf B amser llawn yn ennill £53,586 y flwyddyn, heb gynnwys unrhyw lwfansau. Mae hynny'n dod o dan fand 3 yn y system bresennol, sy'n golygu bod y Rheolwr Gorsaf yn talu 13.5% o'i gyflog gros (neu £7,234) mewn cyfraniadau pensiwn. Weithiau, gelwir hyn yn ddull haenog.

22. Mantais y dull gweithredu hwnnw yw ei fod yn syml ond mae iddo rai anfanteision. Yn benodol, mae'n golygu, pan fydd rhywun yn cael ei ddyrchafu i radd sy'n mynd ag ef i fand cyfraniadau newydd, mae cyfran sylweddol o'r cyflog ychwanegol mae'n ei gael yn cael ei llyncu i bob pwrpas gan y gyfradd uwch o gyfraniadau pensiwn sydd wedyn yn berthnasol i'w gyflog i gyd.

23. Gan ddefnyddio'r un enghraifft, mae Rheolwr Gorsaf A amser llawn sy'n ennill £50,041 y flwyddyn yn dod o dan fand 2 ac yn talu 12.9% o'i gyflog gros (neu £6,455) mewn cyfraniadau pensiwn. Felly, os yw'n cael ei ddyrchafu i Reolwr Gorsaf B, caiff £779 o'u codiad cyflog o £3,545 ei lyncu gan gyfraniadau pensiwn uwch. O dan y system bresennol, byddai'r un peth yn digwydd pe bai dyfarniad cyflog i bob diffoddwr tân yn golygu symud cyflog am un radd o un band i'r nesaf. Gallai hyn beri i ddiffoddwyr tân fod yn amharod i geisio symud ymlaen yn eu gyrfa, neu eu hamddifadu o werth llawn y dyfarniad cyflog.

24. Dull arall a thecach o bosibl fyddai cymhwyso'r cyfraddau cyfraniadau ar sail ymylol, yn debyg mewn egwyddor i'r ffordd y mae treth incwm yn cael ei chyfrifo. O dan y system hon, byddai'r holl aelodau yn talu cyfradd cyfraniadau band 1 ar gyfran eu cyflog hyd at frig band 1, cyfradd cyfraniadau band 2 ar gyfran eu cyflog rhwng brig band 1 a brig band 2, ac yn y blaen. Mae hyn yn lleddfu effaith ystumiol cyflogau ar

ddyrchafiad a rhai dyfarniadau cyflog, fel yr uchod, ac mae'n golygu bod y gyfradd gyfraniadau effeithiol yn cynyddu'n raddol wrth i'r cyflog gynyddu, yn hytrach nag ar sail fesul cam. Ar y llaw arall, mae'n debyg y byddai dull ymylol yn fwy cymhleth i'w reoli. Mae hefyd, i bob pwrpas, yn lleihau'r cyfraniadau a delir gan y rheini sy'n ennill cyflog uwch, gan leihau'r amddiffyniad a gaiff y rhai sydd ar y cyflogau isaf. Gan ddefnyddio'r un enghraifft ag uchod, byddai Rheolwr Gorsaf A yn talu £5,926 mewn cyfraniadau a byddai Rheolwr Gorsaf B yn talu £6,396, felly dim ond £470 o'r codiad cyflog yn sgil dyrchafiad sy'n cael ei lyncu gan gyfraniadau uwch.

25. Mae'n bwysig nodi mai dangos effeithiau gwahanol y ddau ddull yn unig y mae'r ffigurau hyn; pe baem yn symud i ddull gweithredu ymylol, byddai angen i ni addasu'r cyfraddau cyfraniadau i gyflawni'r arenillion targed, felly ni fydd y ffigurau hyn o reidrwydd yn berthnasol yn ymarferol.

26. Mae'r tabl isod yn dangos sut y byddai'r dull ymylol yn effeithio ar gyfraddau'r cyfraniadau yng nghyswllt pob gradd gyflog.

**Opsiwn 2 – Cyfraddau cyfraniadau sy'n seiliedig ar ddull gweithredu ymylol**

| Gradd | Gwir Dâl | Strwythur Presennol | | Strwythur wedi'i Ddiweddaru | | Effaith y newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfradd gyfraniadau | Swm gros y cyfraniad (blynyddol) | Cyfradd gyfraniadau | Swm gros y cyfraniad (blynyddol) | Newid yn y gyfradd gyfraniadau | Newid mewn cyfraniadau gros (blynyddol) |
| Diffoddwr Tân - Cymwys (Amser llawn) | £37,675 | 12.9% | £4,860 | 12.73% | £4,796 | -0.17% | -£64 |
| Diffoddwr Tân - Cymwys (Rhan-amser) | £25,000 | 12.9% | £3,225 | 12.73% | £3,183 | -0.17% | -£43 |
| Rheolwr Criw Cymwys (Amser llawn) | £41,767 | 12.90% | £5,388 | 13.21% | £5,517 | 0.31% | £129 |
| Rheolwr Gwylfa – Cymwys B (Amser llawn) | £46,707 | 12.9% | £6,025 | 13.21% | £6,170 | 0.31% | £145 |
| Rheolwr Gorsaf – Cymwys B (Amser llawn gyda lwfans dyletswydd hyblyg pensiynadwy o 20%) | £64,303 | 13.50% | £8,681 | 14.33% | £9,215 | 0.83% | £534 |
| Rheolwr Grŵp – Cymwys B (Amser llawn gyda lwfans dyletswydd hyblyg pensiynadwy o 20%) | £74,434 | 13.5% | £10,049 | 14.33% | £10,666 | 0.83% | £618 |
| Rheolwr Ardal – Cymwys B (Amser llawn gyda | £86,465 | 13.50% | £11,673 | 15.15% | £13,099 | 1.65% | £1,427 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| lwfans dyletswydd hyblyg pensiynadwy o 20%) | | | | | | | |

27. At ei gilydd, gallai dull ymylol fod yn decach i bawb a gallai olygu llai o ystumio. Gellid dadlau nad yw'n iawn y gallai dyfarniad cyflog cyffredinol i bob diffoddwr tân fod yn sylweddol llai gwerthfawr i rai pe bai'n eu symud o un band cyfraniadau i un arall. Yn yr un modd, gallai hyn beri i ddiffoddwyr tân fod yn amharod i wneud cais am ddyrchafiad oherwydd byddai rhan sylweddol o'u codiad cyflog yn cael ei golli ar ffurf cyfraniadau uwch.

28. Fodd bynnag, mae anfanteision i'r dull hwn gan ei fod yn fwy cymhleth i aelodau'r cynllun ei ddeall yn llawn ac i weinyddwyr y cynllun ei weinyddu.

**Cwestiwn 2. I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylid cyfrifo cyfraniadau pensiwn gweithwyr ar sail ymylol, yn hytrach nag ar sail haenog?**

**Opsiwn 3 - Cysylltu cyfraniadau â gradd, nid cyflog**

29. Mae hyn yn fodd i ddiogelu'r strwythur cyfraniadau at y dyfodol. Byddai'n cysylltu'r cyfraniadau â'r strwythur graddau a nodir yn Adran 3 Telerau ac Amodau Gwasanaeth Diffoddwyr Tân ("y Llyfr Llwyd") yn hytrach nag yn ôl band ariannol, fel y byddai pob tân (dyweder) yn talu'r un gyfradd, yn yr un modd ag y byddai pob rheolwr gwylfa, rheolwr grŵp ac ati. Mae hawl unigolyn i gyflog eisoes wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â'i rôl yn y gwasanaeth tân. Mae'r strwythur gradd / cyflog wedi'i safoni ar draws y DU, sy'n golygu bod pob unigolyn sy'n cael ei gyflogi ar yr un raddfa yn ennill yr un cyflog sylfaenol, ni waeth beth fo hyd y gwasanaeth. Byddai cysylltu cyfraddau cyfrannu â graddfeydd yn rhoi strwythur clir a hawdd ei ddeall y mae diffoddwyr tân eisoes yn gyfarwydd ag ef.

30 Byddai'r model yn cael ei rannu'n 4 band, Diffoddwr Tân; Rheolwr Criw / Rheolwr Gwylfa; Rheolwr Gorsaf / Rheolwr Grŵp; a Rheolwr Ardal ac uwch. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, byddai cyfraddau cyfrannu gweithwyr yn cynyddu yn unol â'u datblygiad drwy'r graddau. Felly, byddai Diffoddwyr Tân yn talu'r gyfradd isaf a byddai Rheolwyr Ardal ac uwch yn talu'r gyfradd uchaf. Ni fyddem yn gwahaniaethu rhwng graddau hyfforddai, datblygiad a chymwys, na rhwng y graddau "A" a "B" ar gyfer rheolwyr gwylfa i reolwyr grŵp. Byddai'r dull hwn yn cyflawni'r egwyddor sylfaenol o sicrhau bod aelodau'r cynllun sydd ar gyflogau is yn cael eu hamddiffyn. Mae'r tabl isod yn dangos y byddai'r gyfradd gyfrannu yn gostwng 0.8% ar gyfer diffoddwr tân amser llawn (Band 1), a fyddai'n cyfateb i ostyngiad o £301 yn ei gyfraniadau. Y rheswm am hyn yw y byddai'r nifer fawr o ddiffoddwyr tân cymwys yn disgyn i'r band isaf – ac fel y nodwyd uchod, nid yw'n cael ei ddefnyddio o gwbl yn y strwythur presennol, i bob pwrpas.

**Opsiwn 3 - Cyfraddau cyfraniadau sy’n seiliedig ar ddull gweithredu ymylol**

| Gradd | Gwir Dâl | Strwythur Presennol | | Strwythur wedi’i Ddiweddaru | | Effaith y newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfradd gyfraniadau | Swm gros y cyfraniad (blynyddol) | Cyfradd gyfraniadau | Swm gros y cyfraniad (blynyddol) | Newid yn y gyfradd gyfraniadau | Newid mewn cyfraniadau gros (blynyddol) |
| Diffoddwr Tân - Cymwys (Amser llawn) | £37,675 | 12.9% | £4,860 | 12.1% | £4,559 | -0.8% | -£301 |
| Diffoddwr Tân - Cymwys (Rhan-amser) | £25,000 | 12.9% | £3,225 | 12.1% | £3,025 | -0.8% | -£200 |
| Rheolwr Criw Cymwys (amser llawn) | £41,767 | 12.9% | £5,388 | 14.0% | £5.847 | 1.1% | £459 |
| Rheolwr Gwylfa – Cymwys B (Amser llawn) | £46,707 | 12.9% | £6,025 | 14.0% | £6,539 | 1.1% | £514 |
| Rheolwr Gorsaf – Cymwys B (Amser llawn gyda lwfans dyletswydd hyblyg pensiynadwy o 20%) | £64,303 | 13.5% | £8,681 | 14.6% | £9,388 | 1.1% | £707 |
| Rheolwr Grŵp – Cymwys B (Amser llawn gyda lwfans dyletswydd hyblyg pensiynadwy o 20%) | £74,434 | 13.5% | £10,049 | 14.6% | £10,867 | 1.1% | £819 |
| Rheolwr Ardal – Cymwys B (Amser llawn gyda lwfans hyblyg pensiynadwy o 20%) | £86,465 | 13.5% | £11,673 | 15.6% | £13,489 | 2.1% | £1,816 |

31. Ar ben hynny, gellid dadlau ei bod yn annheg disgwyl i ddiffoddwyr tân wrth gefn, ar unrhyw radd, dalu'r un gyfradd o gyfraniadau gweithwyr â'u cydweithwyr amser llawn cyfatebol gan y byddai hyn yn golygu bod staff wrth gefn yn talu lefel anghymesur uwch o gyfraniadau. Er enghraifft, gallai Rheolwr Gwylfa o dan y System ar Ddyletswydd yn ôl y Galw (RDS) dalu cyfradd uwch o gyfraniadau na Diffoddwr Tân amser llawn, er ei fod yn debygol o fod yn ennill llai o gyflog pensiynadwy. Rydym felly'n cynnig y dylid gosod diffoddwyr tân ar ddyletswydd yn ôl y galw (ni waeth beth fo'u graddfa) ym Mand 1 gyda diffoddwyr tân amser llawn, gan sicrhau bod staff sy'n cael y cyflogau isaf yn y Gwasanaeth yn cael eu diogelu. Ni fyddai hyn yn berthnasol i staff sydd â chontract amser llawn a chontract diffoddwr tân wrth gefn gyda'r un cyflogwr; byddai eu cyfraniadau nhw yn cael eu cyfrifo ar yr un sail â staff amser llawn eraill.

32. Mae bandiau cyflog yn uwchraddio bob blwyddyn yn unol â dyfarniadau cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai codiadau cyflog ar gyfer pob gradd yn gwneud unrhyw wahaniaeth i gyfraddau cyfraniadau, felly byddai'r strwythur yn cael ei ddiogelu'n awtomatig ac yn barhaol at y dyfodol, ac ni fyddai risg y byddai dyfarniad cyflog yn mynd â phob diffoddwr tân ar radd benodol i fand cyfraniadau uwch, gan eu hamddifadu o beth o'r dyfarniad hwnnw i bob pwrpas. Mae mantais ychwanegol hefyd, sef y dylai symlrwydd y strwythur hwn fod yn gymharol hawdd ei weinyddu. Byddai pennu'r gyfradd briodol o gyfraniadau yn dibynnu ar radd pob aelod yn unig.

33. Os na fyddwn yn mabwysiadu'r dull hwn, ac yn cadw'r bandiau presennol ar sail gwerthoedd cyflog, byddai angen i ni gael rhyw ffordd o uwchraddio'r rheini'n awtomatig o hyd os ydym am ddiogelu'r system at y dyfodol. Un opsiwn fyddai defnyddio'r gwerthoedd cyhoeddedig ar gyfer y newid mewn enillion wythnosol blynyddol ar draws yr economi. Mae'r ffigur hwn eisoes yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo newidiadau mewn pensiynau cronedig. Fodd bynnag, nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu newidiadau blynyddol yng nghyflogau diffoddwyr tân; a byddai'n dal yn ei gwneud yn ofynnol i gyflog pob diffoddwr tân gael ei wirio yn erbyn y bandiau cyfraniadau, ac i'r bandiau hynny gael eu hailgyfrifo bob blwyddyn. Credwn fod y dull seiliedig ar raddau a nodir uchod yn llawer symlach ac yn well.

**Cwestiwn 3. I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai cyfraniadau pensiwn gweithwyr fod yn seiliedig ar strwythur graddau'r Gwasanaeth Tân yn hytrach nag ar fandio ariannol?**

**Opsiwn 4 - Newid o gyflog cyfwerth ag amser llawn i gyflog gwirioneddol.**

34. Ar hyn o bryd, mae aelodau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn talu cyfraniadau ar sail y band y mae eu cyflog pensiynadwy neu eu cyflog pensiynadwy tybiedig yn perthyn iddo. Mae hyn yn cynnwys eu cyflog a'u lwfansau sylfaenol sy'n

bensiynadwy at ddibenion y Cynllun[1]. O ran diffoddwyr tân rhan-amser neu ddiffoddwyr tân ar ddyletswydd yn ôl y galw, mae'r gyfradd gyfraniadau yn seiliedig ar yr hyn y byddai unigolyn wedi'i gael pe bai'n gweithio amser llawn (cyfwerth ag amser llawn), ond dim ond o'r cyflog y mae unigolyn yn ei gael mewn gwirionedd y bydd cyfraniadau'n cael eu didynnu. Felly, mae diffoddwr tân wrth gefn yn y radd Diffoddwr Tân Cymwys yn talu cyfraniadau sy'n seiliedig ar gyflog Diffoddwr Tân Cymwys amser llawn, nid ar yr hyn y mae'n ei ennill fel diffoddwr tân wrth gefn.

35. Rydym wedi ystyried a ddylem newid y dull hwn a defnyddio cyfraddau blynyddol gwirioneddol o gyflog pensiynadwy yn hytrach na chyflog cyfwerth ag amser llawn. Byddai hyn yn golygu y byddai llawer o ddiffoddwyr tân ar ddyletswydd yn ôl y galw / rhan amser yn symud i lawr i'r band cyfradd cyfraniadau isaf. Gallai hyn fod yn fuddiol i aelodau o'r fath gan y byddai'n golygu cyfraddau cyfraniadau llawer is. Fodd bynnag, byddai hyn yn cael effaith groes i'r hyn sy'n ofynnol yn yr ymgynghoriad hwn, gan y byddai mewn gwirionedd yn gwthio'r arenillion ymhellach i lawr. Byddai hynny, yn ei dro, yn golygu y byddai'n rhaid i gyfraddau cyfraniadau godi fwy fyth ar gyfer yr holl ddiffoddwyr tân, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu cyflogi ar delerau dyletswydd yn ôl y galw. Mae'r tabl isod yn dangos y byddai cyfradd cyfraniadau diffoddwr tân amser llawn ym Mand 1 yn cynyddu o 12.9% i 13.5%, a fyddai'n cyfateb i dalu cyfraniad o £226. Gall y cynnydd mewn cyfraddau cyfraniadau yn sgil y dull hwn fod yn uwch yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill y DU oherwydd cyfran sylweddol uwch o ddiffoddwyr tân ar ddyletswydd yn ôl y galw (tua 55% o'r gweithlu, o'i gymharu â 30% yn Lloegr).

[1] Fel rheol gyffredinol, mae lwfansau sy'n cael eu talu'n barhaol neu am gyfnod amhenodol, fel DPP neu lwfansau dyletswydd hyblyg, yn bensiynadwy; ond nid yw lwfansau dros dro neu lwfansau tymor penodol fel taliadau goramser neu daliadau dyrchafiad dros dro yn cael eu cynnwys.

**Opsiwn 4 – Cyfraddau cyfraniadau wedi'u seilio ar gyflog pensiynadwy gwirioneddol yn hytrach nag ar dâl pensiynadwy Cyfwerth ag Amser Llawn**

| | | Strwythur Presennol | | Strwythur wedi'i Ddiweddaru | | Effaith y newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gradd** | **Gwir Dâl** | **Cyfradd gyfraniadau** | **Swm gros y cyfraniad (blynyddol)** | **Cyfradd gyfraniadau** | **Swm gros y cyfraniad (blynyddol)** | **Newid yn y gyfradd gyfraniadau** | **Newid mewn cyfraniadau gros (blynyddol)** |
| Diffoddwr Tân - Cymwys (Amser llawn) | £37,675 | 12.9% | £4,860 | 13.5% | £5,086 | 0.6% | £226 |
| Diffoddwr Tân - Cymwys (Rhan-amser) | £25,000 | 12.9% | £3,225 | 11.6% | £2,900 | -1.3% | -£325 |
| Diffoddwr Tân Cymwys (y System ar Ddyletswydd yn ôl y Galw) | £15,000 | 12.9% | £1,935 | 11.6% | £1,740 | -1.3% | -£195 |
| Rheolwr Criw Cymwys (Amser llawn) | £41,767 | 12.9% | £5,388 | 13.5% | £5,639 | 0.6% | £251 |
| Rheolwr Gwylfa – Cymwys B (Amser llawn) | £46,707 | 12.9% | £6,025 | 13.5% | £6,305 | 0.6% | £280 |
| Rheolwr Gwylfa Cymwys (y System ar Ddyletswydd yn ôl y Galw) | £25,000 | 12.9% | £3,225 | 11.6% | £2,900 | -1.3% | -£325 |
| Rheolwr Gorsaf – Cymwys B (Amser llawn gyda lwfans dyletswydd hyblyg pensiynadwy o 20%) | £64,303 | 13.5% | £8,681 | 14.1% | £9,067 | 0.6% | £386 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheolwr Grŵp – Cymwys B (Amser llawn gyda lwfans dyletswydd hyblyg pensiynadwy o 20%) | £74,434 | 13.5% | £10,049 | 14.1% | £10,495 | 0.6% | £447 |
| Rheolwr Ardal – Cymwys B (Amser llawn gyda lwfans dyletswydd hyblyg pensiynadwy o 20%) | £86,465 | 13.5% | £11,673 | 14.1% | £12,192 | 0.6% | £519 |

36. Yn gyffredinol, nid ydym yn credu y byddai’r dull hwn yn deg, gan y byddai’n arwain at gynnydd sylweddol mewn cyfraddau cyfraniadau o ran llawer o aelodau’r cynllun. Gallai hyn hefyd arwain at fwy o aelodau yn optio allan o’r cynllun a chynyddu’r baich ar yr aelodau sy’n weddill eto fyth. Gallai hynny olygu na fydd yr arenillion yn cael eu cyflawni eto yn y prisiad nesaf, y bydd angen ei ddiwygio drwy gynnydd ychwanegol yn strwythur y gyfradd gyfraniadau. Credwn ei bod yn well diogelu diffoddwyr tân wrth gefn drwy eu rhoi i gyd yn y band isaf beth bynnag fo’u gradd, fel y nodwyd gennym uchod.

**Cwestiwn 4 – I ba raddau ydych chi’n cytuno y dylid parhau i gyfrifo cyfraniadau drwy gyfeirio at gyflog cyfwerth ag amser llawn yn hytrach na chyflog pensiynadwy gwirioneddol?**

**Ateb Arfaethedig**

37. Yn gyffredinol, rydym yn cynnig y dylai strwythur y cyfraddau cyfraniadau fod yn seiliedig ar strwythur sy’n gysylltiedig â’r strwythur graddau presennol gan ddefnyddio cyflog cyfwerth ag amser llawn (Opsiwn 3). Er mwyn sicrhau bod aelodau’r cynllun sydd ar gyflogau is yn cael eu diogelu, credwn y dylid rhoi’r holl ddiffoddwyr tân ar ddyletswydd yn ôl y galw, ni waeth beth fo’u gradd, ym Mand 1 gyda diffoddwyr tân amser llawn. Bydd hyn yn sicrhau bod aelodau’r cynllun sydd ar y cyflogau isaf yn talu llai o gyfraniadau na’u cydweithwyr amser llawn. Rydym yn cynnig mai dyma’r dull tecaf ac mae’n sicrhau bod egwyddor allweddol y cynllun pensiwn diffoddwyr tân yn cael ei chadw.

38. Mae’r tabl isod yn nodi’r effaith y byddai’r strwythur hwn yn ei chael ar gyfraddau cyfraniadau ar gyfer y 4 band cyflog arfaethedig. Mae enghraifft 1 a 2 isod yn dangos y byddai diffoddwyr tân wrth gefn, beth bynnag fo’u gradd, a diffoddwyr tân amser llawn yn talu cyfradd gyfraniadau o 12.24%, sydd mewn gwirionedd yn is na’r gyfradd bresennol ar gyfer Band 2, sef 12.9%, a fyddai mewn termau real yn lleihau swm y cyfraniadau sy’n daladwy £249 a £165 yn y drefn honno.

**Opsiwn a Gynigir – Cyfradd gyfraniadau sy'n seiliedig ar radd gyda'r holl Ddiffoddwyr Tân ar Ddyletswydd yn ôl y Galw yn cael eu rhoi ym Mand 1**

| Gradd | Gwir Dâl | Strwythur Presennol | | Strwythur wedi'i Ddiweddaru | | Effaith y newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfradd gyfraniadau | Swm gros y cyfraniad (blynyddol) | Cyfradd gyfraniadau | Swm gros y cyfraniad (blynyddol) | Newid yn y gyfradd gyfraniadau | Newid mewn cyfraniadau gros (blynyddol) |
| Diffoddwr Tân - Cymwys (Amser llawn) | £37,675 | 12.9% | £4,860 | 12.24% | £4,611 | -0.66% | -£249 |
| Diffoddwr Tân - Cymwys (Rhan-amser) | £25,000 | 12.9% | £3,225 | 12.24% | £3,060 | -0.66% | -£165 |
| Diffoddwr Tân Cymwys (y System ar Ddyletswydd yn ôl y Galw) | £15,000 | 12.9% | £1,935 | 12.24% | £1,836 | -0.66% | -£99 |
| Rheolwr Criw Cymwys (amser llawn) | £41,767 | 12.90% | £5,388 | 14.48% | £5,906 | 1.24% | £518 |
| Rheolwr Gwylfa – Cymwys B (Amser llawn) | £46,707 | 12.9% | £6,025 | 14.14% | £6,604 | 1.24% | £579 |
| Rheolwr Gwylfa Cymwys (y System ar Ddyletswydd yn ôl y Galw) | £25,000 | 12.9% | £3,225 | 14.4% | £3,060 | -0.66% | -£165 |
| Rheolwr Gorsaf – Cymwys B (Amser llawn gyda lwfans dyletswydd hyblyg pensiynadwy o 20%) | £64,303 | 13.50% | £8,681 | 14.74% | £9,478 | 1.24% | £797 |
| Rheolwr Grŵp – Cymwys B (Amser llawn gyda lwfans | £74,434 | 13.5% | £10,049 | 14.74% | £10,972 | 1.24% | £923 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| dyletswydd hyblyg pensiynadwy o 20%) | | | | | | | |
| Rheolwr Ardal – Cymwys B (Amser llawn gyda lwfans dyletswydd hyblyg pensiynadwy o 20%) | £86,465 | 13.50% | £11,673 | 15.74% | £13,610 | 2.24% | £1,937 |

39. Felly, byddai'r dull hwn yn golygu cynnydd bach yn yr incwm net ar gyfer aelodau'r cynllun sydd ar y cyflogau isaf, er y byddai'r gyfradd gyfraniadau uwch yn daladwy gan yr unigolion hynny ar gyflogau uwch , Cysylltu cyfraniadau â'r strwythur graddau yn hytrach na drwy fandio ariannol, fyddai'r dull tecaf gan y byddai'n sicrhau bod aelodau'r cynllun sydd ar gyflogau is yn cael eu diogelu bob amser; byddai eu cyfradd gyfraniadau ond yn cynyddu pe baent yn cael dyrchafiad. , Byddai'r strwythur arfaethedig hefyd yn fwy gwastad na'r strwythur sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd , sy'n golygu y byddai'r gyfradd gyfraniadau sydd mewn grym yn cynyddu wrth i'r cyflog gynyddu yn hytrach nag ar sail fesul cam. Byddai hyn wedyn yn atal diffoddwyr tân rhag bod yn amharod i wneud cais am ddyrchafiad oherwydd byddai rhan sylweddol o'u codiad cyflog yn cael ei golli drwy gyfraniadau uwch. Mae'r opsiwn hwn hefyd yn darparu diweddariadau awtomatig bob blwyddyn yn unol â dyfarniadau cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol, sydd wedyn yn golygu y byddai'n haws i weinyddwyr a rheolwyr cynlluniau weinyddu'r strwythur hwn, gan leihau'r tebygolrwydd o wallau. Mae Llywodraeth Cymru yn credu mai dyma fyddai'r ffordd fwyaf priodol a theg o sicrhau bod yr arenillion targed yn cael eu cyflawni, gan sicrhau hefyd bod yr egwyddorion allweddol yn cael eu hadlewyrchu..

40 Rydym yn cynnig cyflwyno Rheoliadau a fydd yn diwygio Rheolau Cynllun 2015 i ddiweddaru strwythur y gyfradd gyfraniadau yn unol â'r rhai a amlinellir uchod. Rydym yn disgwyl y bydd y cyfraddau uwch yn ddigon i gyrraedd y targed o ran arenillion ar yr un pryd â rhoi cyfraddau cyfraniadau fforddiadwy i aelodau'r cynllun sy'n uwchraddio'n awtomatig ac sy'n cyd-fynd â datblygiad yn y Gwasanaeth.

**Cwestiwn 5 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig manwl uchod?**

**Cwestiwn 6 – Os nad ydych yn cytuno â'r cynnig sydd wedi'i amlinellu uchod, a oes gennych chi awgrym arall ynghylch sut y dylid strwythuro cyfraddau cyfraniadau?**

## Yr Iaith Gymraeg

41. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â newid strwythur cyfraddau cyfraniadau presennol gweithwyr. O'r herwydd, nid yw'n effeithio ar y ddarpariaeth o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, na gallu pobl i gyfathrebu yn Gymraeg. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i reolwyr y cynllun gyfathrebu ag aelodau yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn unol â safonau iaith Gymraeg yr Awdurdodau Tân ac Achub. Bydd ein rheoliadau hefyd yn cael eu gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Cwestiwn 7 – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynnig uchod yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn**

**eich barn chi?  Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**Cwestiwn 8 – Eglurwch hefyd, os gwelwch yn dda, sut rydych yn credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu gynyddu effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

## Materion eraill

42. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, ond mae'n ddigon posibl y bydd ymatebwyr yn dymuno codi materion eraill hefyd.   Sylwch, fodd bynnag, fod yn rhaid i ni geisio cyflawni'r arenillion targed a bod sylwadau ynghylch na ddylai'r cyfraddau cyfraniadau newid o gwbl yn annhebygol o ganiatáu i'r rhwymedigaeth hon gael ei chyflawni gan mai'r unig ffordd ymarferol o gyflawni'r arenillion targed fyddai cynyddu'r cyfraddau cyfraniadau.

**Cwestiwn 9 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol.  Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am ein cynigion neu unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt?**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

☐ Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

**Cwestiwn 1**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai'r strwythur newydd fod yn seiliedig ar yr egwyddorion a amlinellir uchod? Ydych chi'n meddwl bod rhai egwyddorion yn bwysicach na rhai eraill?**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 2**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylid cyfrifo cyfraniadau pensiwn gweithwyr ar sail ymylol, yn hytrach nag ar sail haenog?**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 3**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai cyfraniadau pensiwn gweithwyr fod yn seiliedig ar strwythur graddau'r Gwasanaeth Tân yn hytrach nag ar fandio ariannol?**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 4**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylid parhau i gyfrifo cyfraniadau drwy gyfeirio at gyflog cyfwerth ag amser llawn yn hytrach na chyflog pensiynadwy gwirioneddol?**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 5**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig manwl sydd wedi'i nodi ym mharagraffau 37-40 uchod?**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 6**

**Os nad ydych yn cytuno â'r cynnig sydd wedi'i amlinellu uchod, a oes gennych chi awgrym arall ynghylch sut y dylid strwythuro cyfraddau cyfraniadau?**

**Cwestiwn 7**

**Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion uchod yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**Cwestiwn 8**

**Hefyd, esboniwch sut rydych yn credu y gallai'r polisi arfaethedig gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Cwestiwn 9**

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am ein cynigion neu unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt?**

| |
|---|
| |